




Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

Datblygu Cynulleidfaoedd



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn [Bolisi Cyfle Cyfartal](#).

Datblygu Cynulleidfaoedd

Pwrpas

Cynorthwyo prosiectau sy'n datblygu cynulleidfaoedd gan ddefnyddio dulliau sy'n glir, wedi eu targedu ac sy'n fesuradwy.

Beth rydyn ni am ei gyflawni

Un o'r sialensiau mwyaf sy'n ein hwynebu yw sut i sicrhau bod y gorau o fyd y celfyddydau yng Nghymru ar gael i gynifer o bobl â phosibl. Rydyn ni am gynorthwyo sefydliadau i ymestyn cwrpas eu gwaith, a meddwl mewn ffordd fwy uchelgeisiol ac arloesol am sut i fynd ati. Bydd prosiectau llwyddiannus i feithrin cynulleidfaoedd yn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag ymgysylltu, ac yn hyrwyddo cynhwysiant ehangaf posibl er mwyn galluogi pobl Cymru i gyrchu'r celfyddydau.

Gellir crynhoi hanfod ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau, sef *Ysbrydoli*, mewn tri gair: creu, estyn, cynnal. Mater o estyn allan yw Datblygu Cynulleidfaoedd, gan ddefnyddio gwaith o ansawdd uchel i ysbrydoli, cyffroi ac ymgysylltu pobl. Mater o gynnal cynulleidfaoedd yw hi hefyd, gan adael etifeddiaeth trwy eu heffaith a fydd yn annog iddynt ddychwelyd eto wedyn.

Rydyn ni am gynorthwyo gweithgarwch o safon uchel, sy'n gosod ymgysylltu cynulleidfaoedd wrth ei chalon. Dylai sut rydych chi'n estyn allan at gynulleidfaoedd fod yn fan cychwyn, ac nid yn ôl-ystyriaeth ac rydyn ni'n chwilio am syniadau newydd llawn dychymyg, nid mwy o'r un hen beth.

Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gynorthwyo rhai mathau o brosiectau. Mae hyn yn golygu, pan fydd angen i ni ddewis rhwng prosiectau o ansawdd debyg, byddwn ni'n gosod mwy o bwys ar brosiectau sy'n targedu:

- Plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig cydnabyddedig (er enghraifft, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf)
- Pobl â "nodweddion gwarchoddedig".

Ymadrodd a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw "nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, rhyw, cyfeiriadaeth rywiol, crefydd neu greddo. Gwnaeth y Ddeddf hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl ar y seiliau hyn.

Prosiectau na fyddwn ni'n eu cynorthwyo

Ni fyddwn yn cynorthwyo:

- Prosiectau nad ydynt yn dangos yn ddarbwyllol sut y byddant yn datblygu cynulleidfaoedd newydd
- Prosiectau sy'n canolbwyntio'n bennaf neu'n unswydd ar weithgarwch marchnata a / neu hyrwyddo
- Prosiectau nad ydynt yn galluogi cynulleidfaoedd i fynychu gweithgarwch artistig o safon uchel neu ymuno ynddo

Beth sydd ei hangen gennych chi

Byddwn ni'n disgwyl i chi gyflwyno rhesymeg glir dros eich prosiect. Rydyn ni am weld eich bod chi'n adnabod eich cynulleidfaoedd ac yn eu deall. Pwy ydych chi'n eu denu ar hyn o bryd? Pwy nad ydych chi'n eu denu a pham? Sut gallwch chi wella'ch cwmpas yn eich cymuned leol ac mewn cymunedau eraill ymhellach i ffwrdd?

Mae profiad wedi dangos i ni taw'r prosiectau mwyaf llwyddiannus a chyffrous yw'r rhai sydd â gwaith partneriaeth wrth eu calon – prosiectau sy'n hyrwyddo cydweithredu, rhannu a chydweithio. Felly byddwn ni'n disgwyl i chi weithio mewn partneriaeth er mwyn helpu i wireddu gweledigaeth eich prosiect. Nid ydym am fod yn gyfarwyddol, ond gallai hyn gynnwys sefydliadau eraill ym maes y celfyddydau, fel cwmni cynhyrchu neu ganolfan gyflwyno, neu gallai fod yn sefydliad arbenigol yn gweithio yn y sector gwirfoddol, cymunedol neu gydraddoldeb. Ar y cyfan, rydyn ni'n chwilio am gydwethredu sy'n gallu gwthio'r ffiniau a'ch helpu chi i dorri tir newydd.

Bydd arnoch angen methodoleg glir a chytbwys y mae modd ei gwireddu. Beth fydd eich prosiect yn ei gyfrannu at eich sefydliad yn y tymor hwy? Beth fydd effaith hyn yn y tymor hir?

Gall eich prosiect gynnwys elfennau o gymryd rhan gyda'r nod o ymgysylltu a denu cynulleidfaoedd, ond ni ddylai'r ffocws fod ar gymryd rhan yn unig. Gall gynnwys elfennau o farchnata strategol hefyd, ond rhaid i hyn beidio â bod yn brif ffocws i'r gwaith.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein [Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau Datblygu Cynulleidfaoedd](#) a bydd y rhain yn eich helpu chi i lenwi'ch ffurflen gais.

Pwy gaiff wneud cais

Cewch wirio bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais trwy ddarllen ein dogfen [Cychwyn Arni](#).

Y Cyllid sydd ar gael

Cewch gyflwyno cais am hyd at **75%** o gyfanswm costau cymwys eich prosiect. Gellir cyflwyno ceisiadau ar y lefelau canlynol:

- Grantiau bach rhwng £250 a £5,000
- Grantiau mawr rhwng £5,001 a £30,000

Pryd cewch wneud cais

Dylech gyflwyno'ch cais mor fuan ag sy'n bosibl.

Grantiau Bach

Nid oes dyddiad cau ar gyfer grantiau bach, ond bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **chwech wythnos gwaith** rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect. **Os ydych chi'n cyflwyno'ch cais cyntaf i ni, yna rhaid i chi wneud cais ar y lefel hon.**

Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10^{fed} o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31^{ain} o Orffennaf 2019.

Grantiau Mawr

Dyma'r dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau am grantiau mawr:

- 5pm Dydd Mercher 23^{ain} Ionawr 2019
- 5pm Dydd Mercher 8^{fed} Mai 2019

Bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **naw wythnos gwaith** rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect.

Pa mor aml y cewch wneud cais

Gallwch ddal un "grant byw" o'r maes gwaith hwn ac un arall o'r maes gwaith *Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau* mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis. Rydyn ni'n defnyddio'r ymadrodd "grant byw" i olygu cais am brosiect a gafodd gyllid gennym ac sy'n dal i fod ar waith.

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth os ydyn ni wedi rhoi grant i chi o'r blaen a'ch bod chi'n ansicr a ydych chi'n gymwys i wneud cais eto nawr.

Sut i wneud cais

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ein system ymgeisio ar-lein.

Os na allwch gyflwyno'ch cais ar-lein, er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os nad oes cyfrifiadur ar gael i chi, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddull eraill o wneud cais. Gallwn eich cynorthwyo hefyd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf.

Oes angen rhagor o gyngor arnoch?

Mae gennym Daflenni Gwybodaeth a dogfennau canllaw i'ch helpu chi gyda gwahanol agweddau ar y broses o ymgeisio, neu i ddarparu cyngor ar faterion penodol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Efallai y bydd y canlynol o ddefnydd wrth i chi baratoi'ch cais ar gyfer y maes gwaith Ymgysylltu Cynulleidfaoedd:

- [Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau Datblygu Cynulleidfaoedd](#)
- [Cyngor Celfyddydau Cymru Arweiniad Cydraddoldeb](#)

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y cais, ffoniwch ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth ar 0845 8734 900 neu e-bostiwch: grantiau@celf.cymru